- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, fo'r cyfnod y caniateir i'r person y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddo aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002),

bydd statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

(10E) Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67 neu fod yn blentyn i berson o'r fath, yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig ar gyfer cwrs dynodedig; a
- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, fo'r cyfnod y caniateir i'r person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67, aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002),

bydd statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

- (b) as at the day before the relevant day, the period for which the person with leave to enter or remain is allowed to stay in the United Kingdom has expired and no further leave to remain has been granted and no appeal is pending (within the meaning of section 104 of the Nationality, Immigration and Asylum Act 2002),

A's status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

(10D) Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a person granted humanitarian protection under paragraph 339C of the immigration rules or the spouse, civil partner, child or stepchild of such a person, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for a postgraduate doctoral degree loan for a designated course; and
- (b) as at the day before the relevant day, the period for which the person granted humanitarian protection is allowed to stay in the United Kingdom has expired and no further leave to remain has been granted and no appeal is pending (within the meaning of section 104 of the Nationality, Immigration and Asylum Act 2002),

A's status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

(10E) Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a person with section 67 leave to remain or the child of such a person, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for a postgraduate doctoral degree loan for a designated course; and
- (b) as at the day before the relevant day, the period for which the person with section 67 leave to remain is allowed to stay in the United Kingdom has expired and no further leave to remain has been granted and no appeal is pending (within the meaning of section 104 of the Nationality, Immigration and Asylum Act 2002),

A's status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

(10F) Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn berson sydd â chaniatâd Calais, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am fenthyciad at radd ddoethurrol ôl-raddedig ar gyfer cwrs dynodedig; a
- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, fo’r cyfnod y caniateir i A aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi,

bydd statws A fel myfyrwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

(10G) Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn berson sydd â hawliau gwarchoddedig ac sydd â chaniatâd cyfyngedig i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am fenthyciad at radd ddoethurrol ôl-raddedig ar gyfer cwrs dynodedig; a
- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, na fo gan A ganiatâd cyfyngedig cyfredol mwyach i ddod i mewn neu i aros a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo, ac nad yw caniatâd pellach i ddod i mewn neu i aros wedi cael ei roi o dan y rheolau hynny,

bydd statws A fel myfyrwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

(10H) Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir neu fod yn briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu’n llysblentyn i wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am fenthyciad at radd ddoethurrol ôl-raddedig ar gyfer cwrs dynodedig; a
- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, fo statws A fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, neu briod, partner sifil, rhiant neu lys-riant A, yn ôl y digwydd, wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i ddod i mewn neu i aros wedi cael ei roi,

bydd statws A fel myfyrwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

(10F) Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a person with Calais leave, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for a postgraduate doctoral degree loan for a designated course; and
- (b) as at the day before the relevant day, the period for which A is allowed to stay in the United Kingdom has expired and no further leave to remain has been granted,

A’s status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

(10G) Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a person with protected rights with limited leave to enter or remain in the United Kingdom granted by virtue of residence scheme immigration rules, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for a postgraduate doctoral degree loan for a designated course; and
- (b) as at the day before the relevant day, A no longer has extant limited leave to enter or remain granted by virtue of residence scheme immigration rules, and no further leave to enter or remain has been granted under those rules,

A’s status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

(10H) Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a protected Ukrainian national or the spouse, civil partner, child or stepchild of a protected Ukrainian national, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for a postgraduate doctoral degree loan for a designated course; and
- (b) as at the day before the relevant day, the status of A as a protected Ukrainian national, or of A’s spouse, civil partner, parent or step-parent, as the case may be, has expired and no further leave to enter or remain has been granted,

A’s status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

(10I) Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan neu fod yn briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu’n llysblentyn i berson o’r fath, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig ar gyfer cwrs dynodedig; a
- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, fo’r cyfnod y caniateir i’r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i ddod i mewn neu i aros wedi cael ei roi,

bydd statws A fel myfyrwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

(10J) Nid yw paragraffau (10A), (10B), (10C), (10D), (10E), (10F), (10G), (10H), (10I) nac (11) yn gymwys pan, ar y diwrnod perthnasol—

- (a) bo A, neu
- (b) bo’r person a achosodd, o ganlyniad i’w statws mewnfudo, i A fod yn fyfyrwr cymwys,

yn ddinesydd Prydeinig neu’n ddinesydd Gwyddelig.”;

(b) ym mharagraff (11)—

- (i) yn is-baragraff (b), yn lle “diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig hwnnw” rhodder “y diwrnod perthnasol”;
- (ii) yn y geiriau ar ôl is-baragraff (b), yn lle “diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig hwnnw” rhodder “y diwrnod perthnasol”;

(c) ar ôl paragraff (11) mewnosoder—

“(12) Yn y rheoliad hwn, ystyr “diwrnod perthnasol” yw—

- (a) diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig (“dyddiad cychwyn BA1”); neu
- (b) os yw’r statws perthnasol, neu’r cyfnod perthnasol y caniateir i berson aros yn y Deyrnas Unedig amdano, yn dod i ben ar neu ar ôl dyddiad cychwyn BA1, diwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd sy’n dechrau yn union ar ôl y flwyddyn academiaidd y mae’r statws neu’r cyfnod yn dod i ben ynddi.

(10I) Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen or the spouse, civil partner, child or stepchild of such a person, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for a postgraduate doctoral degree loan for a designated course; and
- (b) as at the day before the relevant day, the period for which the person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen is allowed to stay in the United Kingdom has expired and no further leave to enter or remain has been granted,

A’s status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

(10J) Paragraphs (10A), (10B), (10C), (10D), (10E), (10F), (10G), (10H), (10I) or (11) do not apply where, as at the relevant day—

- (a) A, or
- (b) the person who, as a result of their immigration status, caused A to be an eligible student,

is a British or Irish citizen.”;

(b) in paragraph (11)—

- (i) in sub-paragraph (b), for “the first day of the first academic year of that designated course” substitute “the relevant day”;
- (ii) in the words after sub-paragraph (b), for “the first day of the first academic year of that designated course” substitute “the relevant day”;

(c) after paragraph (11) insert—

“(12) In this regulation, “relevant day” means—

- (a) the first day of the first academic year of the designated course (“the AY1 start date”); or
- (b) if the relevant status or period for which a person is allowed to stay in the United Kingdom expires on or after AY1 start date, the first day of the academic year which begins immediately after the academic year during which the status or period expires.”

PENNOD 5

Lwfansau gofal iechyd yr Alban

64. Hepgorer rheoliad 3(3)(j)(ii).

RHAN 8

Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019

PENNOD 1

Cyflwyniad

65. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(1) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

PENNOD 2

Aelodau o deuluoedd dinasyddion Affganistan

66. Yn rheoliad 16(1)(b)(ia), ar y diwedd mewnosoder “neu'n briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu'n llysbentyn i berson o'r fath”.

67. Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2A(4)—

- (a) ym mharagraff (da)—
 - (i) hepgorer is-baragraff (ia);
 - (ii) ar ôl is-baragraff (ii) mewnosoder “neu”;
 - (iii) hepgorer is-baragraff (iv) a'r “neu” o'i flaen;
- (b) ym mharagraff (f)(i)—
 - (i) hepgorer “neu” ar ddiwedd paragraff (ab);
 - (ii) ar ddiwedd paragraff (ac), yn lle'r hanner colon rhodder “, neu”;
 - (iii) ar ôl paragraff (ac) mewnosoder—
 - “(ad) person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;”;
- (c) ym mharagraff (f)(ii)—
 - (i) hepgorer “neu” ar ôl paragraff (aa);
 - (ii) ar ddiwedd paragraff (ab), yn lle'r hanner colon rhodder “, neu”;

CHAPTER 5

Scottish healthcare allowances

64. Omit regulation 3(3)(j)(ii).

PART 8

Amendments to the Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) Regulations 2019

CHAPTER 1

Introduction

65. The Education (Student Support) (Postgraduate Master's Degrees) (Wales) Regulations 2019(1) are amended in accordance with this Part.

CHAPTER 2

Family members of Afghan citizens

66. In regulation 16(1)(b)(ia), at the end insert “or the spouse, civil partner, child or stepchild of such a person”.

67. In Schedule 2, in paragraph 2A(4)—

- (a) in paragraph (da)—
 - (i) omit sub-paragraph (ia);
 - (ii) after sub-paragraph (ii) insert “or”;
 - (iii) omit sub-paragraph (iv) and the “or” before it;
- (b) in paragraph (f)(i)—
 - (i) omit “or” at the end of paragraph (ab);
 - (ii) at the end of paragraph (ac), for the semi colon substitute “, or”;
 - (iii) after paragraph (ac) insert—
 - “(ad) a person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen;”;
- (c) in paragraph (f)(ii)—
 - (i) omit “or” after paragraph (aa);
 - (ii) at the end of paragraph (ab), for the semi colon substitute “, or”;

(1) O.S. 2019/895 (Cy. 161), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148), O.S. 2022/403 (Cy. 100), O.S. 2022/764 (Cy. 166) ac O.S. 2023/633 (Cy. 97). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(1) S.I. 2019/895 (W. 161), relevant amendments are S.I. 2021/481 (W. 148), S.I. 2022/403 (W. 100), S.I. 2022/764 (W. 166) and S.I. 2023/633 (W. 97). There are other amending instruments but none are relevant.

- (iii) ar ôl paragraff (ab) mewnosoder—
 “(ac) person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan;”;
- (d) ym mharagraff (g)—
- (i) hepgorer “neu” ar ôl is-baragraff (i);
- (ii) ar ddiwedd is-baragraff (ii), yn lle’r atalnod llawn rhodder “, neu”;
- (iii) ar ôl is-baragraff (ii) mewnosoder—
 “(iii) person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan.”

PENNOD 3

Aelodau o deuluoedd gwladolion Wcreinaidd

68. Yn rheoliad 16(1)(b)(ib), ar y diwedd mewnosoder “neu’n briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu’n llysbentyn i berson o’r fath”.

69. Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2C—

- (a) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—
 “(1A) Person—
- (a) sy’n briod neu’n bartner sifil i wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir,
- (b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu’n bartner sifil i’r person hwnnw,
- (c) sy’n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan roddwyd caniatâd iddo i aros yn y Deyrnas Unedig, a
- (d) sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.
- (1B) Person—
- (a) sydd—
- (i) yn blentyn i wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, neu
- (ii) yn blentyn i briod neu bartner sifil gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir,
- (b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros—
- (i) o dan 18 oed, a
- (ii) yn blentyn i wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir neu, yn ôl y digwydd, yn blentyn i berson a oedd yn briod neu’n bartner sifil i wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir,

- (iii) after paragraph (ab) insert—
 “(ac) a person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen;”;
- (d) in paragraph (g)—
- (i) omit “or” after sub-paragraph (i);
- (ii) at the end of sub-paragraph (ii), for the full stop substitute “, or”;
- (iii) after sub-paragraph (ii) insert—
 “(iii) a person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen.”

CHAPTER 3

Family members of Ukrainian nationals

68. In regulation 16(1)(b)(ib), at the end insert “or the spouse, civil partner, child or stepchild of such a person”.

69. In Schedule 2, in paragraph 2C—

- (a) after sub-paragraph (1) insert—
 “(1A) A person who—
- (a) is the spouse or civil partner of a protected Ukrainian national,
- (b) on the leave application date was the spouse or civil partner of that person,
- (c) is ordinarily resident in the United Kingdom and Islands and has not ceased to be so resident since being granted leave to remain in the United Kingdom, and
- (d) is ordinarily resident in Wales on the first day of the first academic year of the course.
- (1B) A person who—
- (a) is—
- (i) the child of a protected Ukrainian national, or
- (ii) the child of the spouse or civil partner of a protected Ukrainian national,
- (b) on the leave application date was—
- (i) under 18 years old, and
- (ii) the child of a protected Ukrainian national or, as the case may be, the child of a person who was the spouse or civil partner of a protected Ukrainian national,

(c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan roddwyd caniatâd iddo i aros yn y Deyrnas Unedig, a

(d) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs."

(b) ar ôl is-paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros” yw'r dyddiad y gwnaeth person (“P”) gais am ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi sy'n arwain at P yn dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir.”

70. Yn Atodlen 4, yn Nhabl 3, yn y lle priodol yn y tabl mewnosoder y cofnod a ganlyn—

““dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros” (at ddiben penderfynu a yw person yn briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu'n llysblentyn i wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir)	Atodlen 2, paragraff 2C(3)”
--	-----------------------------

PENNOD 4

Terfynu cymhwysra yn gynnar

71. O flaen rheoliad 12A mewnosoder y pennawd “Personau y mae eu caniatâd i aros o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswyllo wedi dod i ben”.

72. Yn rheoliad 12A—

- (a) ym mharagraff (b), yn lle “ar y diwrnod cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig hwnnw” rhodder “ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol”;
- (b) yn y geiriau ar ôl paragraff (b), yn lle “yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig hwnnw” rhodder “yn union cyn y diwrnod perthnasol”.

(c) is ordinarily resident in the United Kingdom and Islands and has not ceased to be so resident since being granted leave to remain in the United Kingdom, and

(d) is ordinarily resident in Wales on the first day of the first academic year of the course.”

(b) after sub-paragraph (2) insert—

“(3) In this paragraph, “leave application date” means the date on which a person (“P”) made an application for leave to enter or remain in the United Kingdom that results in P becoming a person granted leave to enter or remain as a protected Ukrainian national.”

70. In Schedule 4, in Table 3, after the entry for “leave application date” in the second place it occurs, insert the following table entry—

““leave application date” (for the purpose of determining if a person is a spouse, civil partner, child or stepchild of a protected Ukrainian national)	Schedule 2, paragraph 2C(3)”
---	------------------------------

CHAPTER 4

Early termination of eligibility

71. Before regulation 12A insert the heading “Persons who cease to have leave to remain under residence scheme immigration rules”.

72. In regulation 12A—

- (a) in paragraph (b), for “as at the day before the first day of the first academic year of that designated course” substitute “as at the day before the relevant day”;
- (b) in the words after paragraph (b), for “immediately before the first day of the first academic year of that designated course” substitute “immediately before the relevant day”.

73. Ar ôl rheoliad 12A mewnosoder—

“12AA. Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn berson sydd â hawliau gwarchoddedig ac sydd â chaniatâd cyfyngedig i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig; a
- (b) ar ddiwedd y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, na fo gan A ganiatâd cyfyngedig cyfredol mwyach i ddod i mewn neu i aros a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo, ac nad yw caniatâd pellach i ddod i mewn neu i aros wedi cael ei roi o dan y rheolau hynny,

bydd statws A fel myfyrwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.”

74. Ar ôl rheoliad 12AA (fel y’i mewnosodir gan reoliad 73 o’r Rheoliadau hyn) mewnosoder—

“Ffoaduriaid y mae eu caniatâd i aros wedi dod i ben

12B. Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn ffoadur neu fod yn briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu’n llysblentyn i ffoadur, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig, a
- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, fo statws ffoadur A, neu ei briod, ei bartner sifil, ei riant neu ei lys-riant, yn ôl y digwydd, wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002),

bydd statws A fel myfyrwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

73. After regulation 12A insert—

“12AA. Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a person with protected rights with limited leave to enter or remain in the United Kingdom granted by virtue of residence scheme immigration rules, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for support for a designated course; and
- (b) as at the end of the day before the relevant day, A no longer has extant limited leave to enter or remain granted by virtue of residence scheme immigration rules, and no further leave to enter or remain has been granted under those rules,

A’s status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.”

74. After regulation 12AA (as inserted by regulation 73 of these Regulations) insert—

“Refugees who cease to have leave to remain

12B. Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a refugee or the spouse, civil partner, child or stepchild of a refugee, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for support for a designated course, and
- (b) as at the day before the relevant day, the refugee status of A, or of A’s spouse, civil partner, parent or step-parent, as the case may be, has expired and no further leave to remain has been granted and no appeal is pending (within the meaning of section 104 of the Nationality, Immigration and Asylum Act 2002),

A’s status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

Personau y mae eu caniatâd i aros fel personau diwladwriaeth wedi dod i ben

12C. Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu fod yn briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu’n llysblentyn i berson o’r fath, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig, a
- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, fo’r cyfnod y caniateir i’r person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes cais am adolygiad gweinyddol yn unol â’r rheolau mewnfudo yn yr arfaeth,

bydd statws A fel myfyrwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

Personau y mae eu caniatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben

12D. Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu fod yn briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu’n llysblentyn i berson o’r fath, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig, a
- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, o ran y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros, fo’r cyfnod y caniateir iddo aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002),

bydd statws A fel myfyrwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

Persons who cease to have stateless leave

12C. Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a person granted stateless leave or the spouse, civil partner, child or stepchild of such a person, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for support for a designated course, and
- (b) as at the day before the relevant day, the period for which the person granted stateless leave is allowed to stay in the United Kingdom has expired and no further leave to remain has been granted and no application for administrative review in accordance with the immigration rules is pending,

A’s status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

Persons who cease to have leave to enter or remain

12D. Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a person with leave to enter or remain or the spouse, civil partner, child or stepchild of such a person, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for support for a designated course, and
- (b) as at the day before the relevant day, the period for which the person with leave to enter or remain is allowed to stay in the United Kingdom has expired and no further leave to remain has been granted and no appeal is pending (within the meaning of section 104 of the Nationality, Immigration and Asylum Act 2002),

A’s status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

Personau y mae eu caniatâd i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol wedi dod i ben

12E. Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o’r rheolau mewnfudo, neu fod yn briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu’n llysblentyn i berson o’r fath, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig, a
- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, fo’r cyfnod y caniateir i’r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o’r rheolau mewnfudo, aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002),

bydd statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

Personau y mae eu caniatâd i aros o dan adran 67 wedi dod i ben

12F. Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn berson sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67 neu fod yn blentyn i berson o’r fath, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig, a
- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, fo’r cyfnod y caniateir i’r person sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67, aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi ac nad oes apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002),

bydd statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

Persons who cease to have humanitarian protection

12E. Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a person granted leave to enter or remain on the grounds of humanitarian protection under paragraph 339C of the immigration rules or the spouse, civil partner, child or stepchild of such a person, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for support for a designated course, and
- (b) as at the day before the relevant day, the period for which the person with leave to enter or remain on the grounds of humanitarian protection under paragraph 339C of the immigration rules is allowed to stay in the United Kingdom has expired and no further leave to remain has been granted and no appeal is pending (within the meaning of section 104 of the Nationality, Immigration and Asylum Act 2002),

A’s status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

Persons who cease to have section 67 leave to remain

12F. Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a person with section 67 leave to remain or the child of such a person, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for support for a designated course, and
- (b) as at the day before the relevant day, the period for which the person with section 67 leave to remain is allowed to stay in the United Kingdom has expired and no further leave to remain has been granted and no appeal is pending (within the meaning of section 104 of the Nationality, Immigration and Asylum Act 2002),

A’s status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

Personau y mae eu caniatâd Calais wedi dod i ben

12G. Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn berson sydd â chaniatâd Calais, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig, a
- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, fo’r cyfnod y caniateir i A aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi,

bydd statws A fel myfyrwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

Personau sy’n peidio â bod yn wladolion Wcreinaidd a ddiogelir

12H. Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir neu fod yn briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu’n llysblentyn i berson o’r fath, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig, a
- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, fo statws A fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, neu briod, partner sifil, rhiant neu lys-riant A, yn ôl y digwydd, wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i ddod i mewn neu i aros wedi cael ei roi,

bydd statws A fel myfyrwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

Personau y mae eu caniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan wedi dod i ben

12I. Pan—

- (a) bo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A”), yn rhinwedd bod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan neu fod yn briod, yn bartner sifil, yn blentyn neu’n llysblentyn i berson o’r fath, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig, a

Persons who cease to have Calais leave

12G. Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that by virtue of being a person with Calais leave, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for support for a designated course, and
- (b) as at the day before the relevant day, the period for which A is allowed to stay in the United Kingdom has expired and no further leave to remain has been granted,

A’s status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

Persons who cease to be protected Ukrainian nationals

12H. Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a protected Ukrainian national or the spouse, civil partner, child or stepchild of such a person, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for support for a designated course, and
- (b) as at the day before the relevant day, the status of A as a protected Ukrainian national or of A’s spouse, civil partner, parent or step-parent, as the case may be, has expired and no further leave to enter or remain has been granted,

A’s status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

Persons who cease to have leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen

12I. Where—

- (a) the Welsh Ministers have determined that, by virtue of being a person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen or the spouse, civil partner, child or stepchild of such a person, a person (“A”) was an eligible student in connection with an application for support for a designated course, and

- (b) ar y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol, o ran y person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan, fo'r cyfnod y caniateir iddo aros yn y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ac nad yw caniatâd pellach i aros wedi cael ei roi,

bydd statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu yn union cyn y diwrnod perthnasol.

12J. Nid yw rheoliadau 12A, 12AA, 12B, 12C, 12D, 12E, 12F, 12G, 12H na 12I yn gymwys pan, ar ddiwedd y diwrnod cyn y diwrnod perthnasol—

- (a) bo A, neu
 (b) bo'r person a achosodd, o ganlyniad i'w statws mewnfudo, i A fod yn fyfyriwr cymwys,

yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd Gwyddelig.”

75. Yn Atodlen 1, paragraff 3(1), yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “diwrnod perthnasol” (“*relevant day*”) yw—

- (a) diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig (“dyddiad cychwyn BA1”); neu
 (b) os yw'r statws perthnasol, neu'r cyfnod perthnasol y caniateir i berson aros yn y Deyrnas Unedig amdano, yn dod i ben ar neu ar ôl dyddiad cychwyn BA1, diwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd sy'n dechrau yn union ar ôl y flwyddyn academiaidd y mae'r statws neu'r cyfnod yn dod i ben ynddi.”

76. Yn Atodlen 4, yn Nhabl 3, yn y lle priodol yn y tabl mewnosoder y cofnod a ganlyn—

““diwrnod perthnasol”	Atodlen 1, paragraff 3(1) ”
-----------------------	--------------------------------

PENNOD 5

Lwfansau gofal iechyd yr Alban

77. Yn rheoliad 10(1), yn Eithriad 9, hepgorer paragraff (b).

- (b) as at the day before the relevant day, the period for which the person granted leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen is allowed to stay in the United Kingdom has expired and no further leave to remain has been granted,

A's status as an eligible student terminates immediately before the relevant day.

12J. Regulations 12A, 12AA, 12B, 12C, 12D, 12E, 12F, 12G, 12H and 12I do not apply where, as at the end of the day before relevant day—

- (a) A, or
 (b) the person who, as a result of their immigration status, caused A to be an eligible student,

is a British or Irish citizen.”

75. In Schedule 1, paragraph 3(1), at the appropriate place insert—

““relevant day” (“*diwrnod perthnasol*”) means—

- (a) the first day of the first academic year of the designated course (“the AY1 start date”); or
 (b) if the relevant status or period for which a person is allowed to stay in the United Kingdom expires on or after AY1 start date, the first day of the academic year which begins immediately after the academic year during which the status or period expires.”

76. In Schedule 4, in Table 3, at the appropriate place insert the following table entry—

““relevant day”	Schedule 1, paragraph 3(1)”
-----------------	-----------------------------

CHAPTER 5

Scottish healthcare allowances

77. In regulation 10(1), in Exception 9, omit paragraph (b).

RHAN 9

Arbedion

Dehongli

78. Yn y Rhan hon, ystyr “blwyddyn academiaidd gynharach” yw blwyddyn academiaidd sy’n dechrau cyn 1 Awst 2024.

Arbedion: Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014

79.—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys pan fo myfyriwr cyfredol (“M”) sydd ar y cynllun Affganistan yn gwneud cais am gymorth o dan Reoliadau 2014 mewn cysylltiad â blwyddyn academiaidd cwrs dynodedig sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024 (“y cwrs cyfredol”).

(2) At ddibenion penderfynu a yw statws M fel myfyriwr cymwys yn terfynu cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd y cwrs dynodedig y mae M yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi (gweler rheoliad 6(10F) o Reoliadau 2014), mae Rheoliadau 2014 yn gymwys fel pe na bai’r diwygiadau a wneir gan reoliadau 10 ac 11 o’r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud.

(3) Yn y rheoliad hwn—

mae i “yr Athrofa” (“*the Institute*”) a “myfyriwr cymwys” (“*eligible student*”) yr ystyron a roddir yn rheoliad 3(1) o Reoliadau 2014;

mae i “cwrs dynodedig” (“*designated course*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 7 o Reoliadau 2014;

ystyr “myfyriwr cyfredol sydd ar y cynllun Affganistan” (“*current Afghan scheme student*”) yw myfyriwr y penderfynodd Gweinidogion Cymru, yn rhinwedd ei fod yn dod o fewn paragraff (aa) (fel y’i mewnosodir gan reoliad 9(b) o’r Rheoliadau hyn) neu (d) o’r diffiniad o “person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan” yn rheoliad 3(1) o Reoliadau 2014, ei fod yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad—

(a) â chais am gymorth ar gyfer un o flynyddoedd academiaidd cynharach y cwrs cyfredol, neu

(b) â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig yn yr Athrofa y trosglwyddwyd statws M ohono i’r cwrs cyfredol;

ystyr “Rheoliadau 2014” (“*the 2014 Regulations*”) yw Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014.

PART 9

Savings

Interpretation

78. In this Part “earlier academic year” means an academic year beginning before 1 August 2024.

Savings: the Education (European University Institute) (Wales) Regulations 2014

79.—(1) This regulation applies where a current Afghan scheme student (“S”) applies for support under the 2014 Regulations in respect of an academic year of a designated course which begins on or after 1 August 2024 (“the current course”).

(2) For the purposes of determining whether S’s status as an eligible student terminates before the first day of the academic year of the designated course in respect of which S is applying for support (see regulation 6(10F) of the 2014 Regulations), the 2014 Regulations apply as if the amendments made by regulations 10 and 11 of these Regulations had not been made.

(3) In this regulation—

“the 2014 Regulations” (“*Rheoliadau 2014*”) means the Education (European University Institute) (Wales) Regulations 2014;

“current Afghan scheme student” (“*myfyriwr cyfredol sydd ar y cynllun Affganistan*”) means a student who the Welsh Ministers determined by virtue of falling within paragraph (aa) (as inserted by regulation 9(b) of these Regulations) or (d) of the definition of “person with leave to enter or remain as a relevant Afghan citizen” in regulation 3(1) of the 2014 Regulations to be an eligible student in connection with—

(a) an application for support for an earlier academic year of the current course, or

(b) an application for support for a designated course of the Institute from which S’s status has been transferred to the current course;

“designated course” (“*cwrs dynodedig*”) has the meaning given in regulation 7 of the 2014 Regulations;

“eligible student” (“*myfyriwr cymwys*”) and “the Institute” (“*yr Athrofa*”) have the meanings given in regulation 3(1) of the 2014 Regulations.

Arbedion: Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrywyr) (Cymru) 2018

80.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo myfyriwr cyfredol (“M”) sydd ar y cynllun Affganistan yn gwneud cais am gymorth o dan Reoliadau 2018 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs perthnasol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024 (“y cwrs cyfredol”).

(2) At ddibenion penderfynu a yw statws M fel myfyriwr perthnasol yn terfynu cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd y cwrs cyfredol y mae M yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi (gweler rheoliad 23F o Reoliadau 2018 a pharagraff 13F o Atodlen 4 iddynt (yn ôl y digwydd)), mae Rheoliadau 2018 yn gymwys fel pe na bai'r diwygiadau a wneir gan reoliadau 34, 35, 36 a 37 o'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud.

(3) Yn y rheoliad hwn—

mae i “cwrs dynodedig” (“*designated course*”), “cwrs ôl-radd dynodedig” (“*designated postgraduate course*”), “myfyriwr cymwys” (“*eligible student*”) a “myfyriwr ôl-raddedig cymwys” (“*eligible postgraduate student*”) yr ystyron a roddir yn Rheoliadau 2018;

ystyr “cwrs perthnasol” (“*relevant course*”) yw cwrs dynodedig neu gwrs ôl-radd dynodedig;

ystyr “myfyriwr perthnasol” (“*relevant student*”) yw myfyriwr cymwys neu fyfyriwr ôl-raddedig cymwys;

ystyr “myfyriwr presennol sydd ar y cynllun Affganistan” (“*current Afghan scheme student*”) yw myfyriwr y penderfynodd Gweinidogion Cymru, yn rhinwedd bod y myfyriwr yn dod o fewn paragraff 2ZA(4)(ea)(ia) neu (iv) o Atodlen 2 i Reoliadau 2018, ei fod yn fyfyriwr perthnasol—

(a) mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer un o flynyddoedd academaidd cynharach y cwrs cyfredol, neu

(b) mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs perthnasol y trosglwyddwyd statws M fel myfyriwr cymwys neu fyfyriwr ôl-raddedig cymwys ohono i'r cwrs cyfredol;

ystyr “Rheoliadau 2018” (“*the 2018 Regulations*”) yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrywyr) (Cymru) 2018.

Savings: the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018

80.—(1) This regulation applies where a current Afghan scheme student (“S”) applies for support under the 2018 Regulations in respect of an academic year of a relevant course which begins on or after 1 August 2024 (“the current course”).

(2) For the purposes of determining whether S's status as a relevant student terminates before the first day of the academic year of the current course in respect of which S is applying for support (see regulation 23F and Schedule 4, paragraph 13F of the 2018 Regulations (as the case may be)), the 2018 Regulations apply as if the amendments made by regulations 34, 35, 36 and 37 of these Regulations had not been made.

(3) In this regulation—

“the 2018 Regulations” (“*Rheoliadau 2018*”) means the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018;

“current Afghan scheme student” (“*myfyriwr presennol sydd ar y cynllun Affganistan*”) means a student who the Welsh Ministers determined, by virtue of the student falling within paragraph 2ZA(4)(ea)(ia) or (iv) of Schedule 2 to the 2018 Regulations to be a relevant student—

(a) in connection with an application for support for an earlier academic year of the current course, or

(b) in connection with an application for support for a relevant course from which S's status as an eligible student or an eligible postgraduate student has been transferred to the current course;

“designated course” (“*cwrs dynodedig*”), “designated postgraduate course” (“*cwrs ôl-radd dynodedig*”), “eligible student” (“*myfyriwr cymwys*”) and “eligible postgraduate student” (“*myfyriwr ôl-raddedig cymwys*”) have the meanings given in the 2018 Regulations;

“relevant course” means a designated course or a designated postgraduate course;

“relevant student” means an eligible student or an eligible postgraduate student.

Jeremy Miles

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weiniogion Cymru
8 Rhagfyr 2023

Minister for Education and Welsh language, one of the Welsh Ministers
8 December 2023

©[®] Hawlfraint y Goron 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2023

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-348-39515-0



9 780348 395150